**Pwyllgor Iechyd & Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-13-01(p.6)**

**Dyddiad** 18 Hydref 2001

**Lleoliad** Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Teitl** **Data cymharol ar iechyd yng Nghymru a'r DU**

## Pwrpas

1. Gwahodd y Pwyllgor i nodi'r adroddiad ar ddata cymharol ar iechyd yng Nghymru a'r DU.

## Crynodeb

2. Mae Atodiad A, sy'n amgaeedig, yn cynnwys gwybodaeth am nodweddion demograffig y boblogaeth, marwolaethau, morbidrwydd (lefelau o salwch), a ffyrdd o fyw. Y prif gasgliadau yw:

- Mae gan Gymru gyfartaledd uwch o boblogaeth hŷn na gwledydd eraill y DU.
- Mae'r cyfraddau beichiogi ymhlith pobl ifainc yn eu harddegau yn uwch yng Nghymru na gwledydd eraill Prydain Fawr.
- Mae amrediad o arwyddion o farwolaethau a morbidrwydd yn awgrymu bod gan bobl yng Nghymru yn gyffredinol iechyd gwaeth na'r rheini yn Lloegr, ond iechyd gwell na'r rheini yn yr Alban. Mae gan Ogledd Iwerddon broffil tebyg.
- Mae gan Gymru lefelau cymharol uchel o oedolion sy'n asesu eu hiechyd cyffredinol yn wael, ac o bobl oed gweithio sy'n anabl am gyfnod hir.

## Amseru

3. Rheolaidd.

## Cefndir

4. Gofynnwyd am yr adroddiad gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei gyfarfod ar 6 Mehefin, yn ystod y drafodaeth am adroddiad misol y Gweinidog.

## Ystyriaeth

5. Gweler Atodiad A.

## Cydsyniad

6. Nid oes unrhyw gwestiwn am reoleidd-dra na chydsyniad.

## Ymhlygiadau ariannol

7. Amherthnasol i'r papur hwn.

## Themâu trawstoriadol

8. Mae iechyd yn faes sy'n trawstorri meysydd polisi. Mae prif themâu'r Cynulliad, sef mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol a hybu cyfle cyfartal yn hanfodol i wella iechyd pobl, tra bo buddsoddi mewn gwella iechyd pobl yn hanfodol i ddatblygiad y gellir ei gynnal.

**Y gweithredu ar gyfer y Pwyllgor Pwnc**

9. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r papur.


**Jane Hutt**
**Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Pwynt Cyswllt**

Dr Ruth Hall
Prif Swyddog Meddygol
Est 3911

## Atodiad A Data Cymharol ar Iechyd yng Nghymru a'r DU


Rhoddir gorolwg cymharol o iechyd yng Nghymru a gwledydd eraill y DU isod (gweler y nodiadau, y diffiniadau a thabl 1 am wybodaeth bellach). Mae'r papur hwn yn cyflwyno gwybodaeth ar gyfer pedair gwlad y DU, ond nodwch y bydd amrywiadau o fewn gwledydd yn ogystal â rhyngddyn nhw. Er enghraifft, mae gan rai ardaloedd yn Lloegr gyfraddau cymharol uchel o farwolaethau hefyd.




### Poblogaeth

Mae'r boblogaeth yng Nghymru o 2.9 miliwn yn cynrychioli 5% (un rhan o ugain) o boblogaeth y DU.


Mae ychydig dros 17% o'r boblogaeth yng Nghymru yn 65 oed neu'n hyn, ac 8% yn 75 oed ac yn hyn - mae'r cyfartaleddau hyn yn uwch na'r hyn a geir mewn gwledydd eraill y DU (tua 10% yn uwch nag yw yn Lloegr).




### Beichiogiadau / genedigaethau


Mae cyfraddau beichiogiadau a genedigaethau yn gyffredinol ychydig yn is yng Nghymru nag ydynt yn Lloegr, ond yn uwch nag ydynt yn yr Alban. (Mae gan Ogledd Iwerddon gyfradd genedigaethau sy'n gyffredinol yn uwch.)


Mae gan Gymru gyfraddau uwch o feichiogiadau ymhlith pobl ifainc yn eu harddegau na gwledydd eraill Prydain Fawr.





### Disgwyliad einioes

Yng Nghymru, y disgwyliad einioes cyfartalog yw 74.5 ar gyfer dyn a enir y dyddiau hyn, a 79.5 ar gyfer menyw. Mae hyn yn debyg i Ogledd Iwerddon, tua 6 mis yn llai na Lloegr, ond ychydig yn uwch na'r Alban.




## Marwolaethau

Mae tua 35,000 o farwolaethau y flwyddyn yng Nghymru. Drwy gydol y 1990au, bu cyfraddau marolwaethau yng Nghymru yn gyson yn uwch na'r rhai yn Lloegr (tua 5% yn uwch yn 2000), ond yn is nag ydynt yn yr Alban. Bu'r cyfraddau yng Ngogledd Iwerddon ychydig yn uwch na'r rhai yng Nghymru.

Gostyngodd cyfraddau marwolaethau yn y pedair gwladd dros y degawd, ond nid oedd y bwlch rhwng Cymru a Lloegr yn lleihau. Lleihaodd y bwlch rhwng Gogledd Iwerddon a Chymru.

Ar gyfer pob gwlad, mae'r cyfraddau ar gyfer dynion tua 50% yn uwch na merched.


Ym mhob gwlad, y ddau brif achos am farwolaeth yn 1999 oedd clefydau cylchredol (clefyd coronaidd y galon a strociau yn bennaf), a chanser, a oedd rhyngddyn nhw yn cyfrif am ddau draean o'r holl farwolaethau.

Bu darlun marwolaethau o ganlyniad i glefydau cylchredol yn gyffredinol yn debyg i'r hyn a welwyd ar gyfer marwolaethau'n gyffredinol (h.y. y cyfraddau isaf yn Lloegr, gyda Chymru a Gogledd Iwerddon yn dilyn, a'r cyfraddau uwch yn yr Alban).

Ar gyfer marwolaethau o ganlyniad i ganser, bu'r cyfraddau yn yr Alban yn uwch, ond bu braidd dim amrywiad rhwng gwledydd eraill (bu cyfraddau Cymru ychydig yn uwch na Lloegr a Gogledd Iwerddon). Roedd gan Gymru gyfraddau ychydig yn uwch o farwolaethau o ganlyniad i ganser y fron nag un man arall.

## Marwolaethau babanod


Seilir marwolaethau babanod (plant dan 1oed) ar niferoedd bach (tua 200 y flwyddyn yng Nghymru), ac felly gellir gweld amrywiadau. Fodd bynnag, yn ystod y 1990au prin iawn fu'r gyfradd yng Nghymru yn uwch na'r gyfradd yn Lloegr.




## Iechyd cyffredinol yn ol adroddiadau unigolion

Yn ol arolwg, mae gan Gymru'r gyfartaledd uchaf o oedolion sy'n adrodd 'nad yw eu hiechyd yn dda' (19%). Yr hyn sy'n ddiddorol yw, er gwaethaf ei phrofil iechyd gwael, roedd gan yr Alban gyfartaledd uchel a oedd yn adrodd bod eu hiechyd yn 'dda'.


Roedd cyfrifiad 2001yn cynnwys cwestiwn newydd ar adrodd am iechyd cyffredinol, a gall canlyniadau hyn, pan fyddant ar gael, ddarparu rhywfaint o wybodaeth ddefnyddiol.




## Anabl am gyfnod hir

Mae gan Gymru'r ganran uchaf o bobl oedran gweithio sydd ag anabledd am gyfnod hir yn ol adroddiad unigolion (23%).

Dangosodd gyfrifiad 1991 gyfartaledd uwch o bobl yng Nghymru a oedd yn adrodd bod ganddynt salwch hir-dymor a oedd yn cyfyngu ar eu bywydau na'r cyfartaledd mewn gwledydd eraill Prydain Fawr.





## Afiechydon


Amcangyfrifir bod bodolaeth amrediad o afiechydon y gellir eu trin (gan gynnwys clefyd coronaidd y galon, pwysedd gwaed uchel, y clefyd siwgr, asthma, gofid - ond nid iselder) yn uwch yng Nghymru nag yw yn Lloegr.


## Canser


Mae tua 15,000 o achosion newydd o ganser bob blwyddyn yng Nghymru (neoplasmau malaen, ac eithrio canser di-felanoma y croen). Yn 1997, bu cyfraddau mynychter canser yn gyffredinol yn debyg yng Nghymru ac yng Ngogledd Iwerddon: yn uwch yn Lloegr, ond yn is yn yr Alban. (Roedd cyfraddau yng Nghymru tua 15% yn uwch nag oeddent yn Lloegr i ddynion, a thua 10% yn uwch i ferched).

Mae'r tri chanser mwyaf cyffredin ar gyfer y ddau ryw (yr ysgyfaint, colorectol, y brostad (dynion), y fron (merched)) yn cyfrif am tua hanner nifer yr holl ganserau. Roedd y patrwm yn gyffredinol yn debyg ar gyfer y rhain, er bod gan Gymru'r gyfradd uchaf o ganser y fron.















## Iechyd deintyddol

Mae gan blant yng Nghymru fwy o brofiad o bydredd dannedd na'r rheini yn Lloegr - mae gan gyfartaledd uwch o blant 5 oed ddannedd pwdr, ar goll neu ddannedd wedi'u llenwi, ac mae'r nifer cyfartalog o ddannedd ar goll neu wedi'u llenwi yn ol y plentyn hefyd yn uwch. Mae gan blant 5 oed yn yr Alban iechyd deintyddol gwael hefyd - ychydig yn waeth nag yw yn Nghymru.








Mae iechyd y geg mewn oedolion yn tueddu i fod yn waeth yng Nghymru nag yw yn Lloegr, gyda chyfartaledd uwch o oedolion (17%) heb unrhyw ddannedd naturiol (yn uchel yn yr Alban hefyd).





## Ysmygu

Mae ychydig dros chwarter y nifer o oedolion yn ysmygu yn Lloegr - cyfartaledd tebyg i Loegr (llai yn yr Alban). Mae ysmygwyr yng Nghymru yn llai tebygol o ysmygu 20 neu fwy y dydd nag un man arall (yn enwedig yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban). Mae bron cynifer o ferched a dynion yn ysmygu yn awr, er eu bod ychydig yn llai tebygol o ysmygu llawer.




Mae pobl ifainc 15 oed yng Nghymru ychydig yn fwy tebygol o fod wedi rhoi cynnig ar ysmygu nag yn un man arall, ond nid i ysmygu'n feunyddiol. Mae mwy o ferched na bechgyn yn ysmygu (23% o ferched a 18% o fechgyn sy'n ysmygu'n feunyddiol).




## Alcohol

Mae bechgyn 15 oed yng Nghymru, a merched 15 oed yn Lloegr, yn fwy tebygol o yfed o leiaf yn wythnosol na'r rheini sydd mewn gwledydd eraill y DU.

**Data cymharol ar iechyd yng Nghymru a'r DU** Tabl 1

| | **Cymru** | Lloegr | Yr Alban | G Iwerddon |
|---|---|---|---|---|
| **Poblogaeth** | | | | |
| poblogaeth (miliwn), canol-2000: | **2.946** | 49.997 | 5.115 | 1.698 |
| % sy'n 65 oed ac yn hyn | **17.3** | 15.6 | 15.4 | 13.0 |
| % sy'n 75 oed ac yn hyn | **8.2** | 7.4 | 6.8 | 5.8 |
| **Ffrwythlondeb** | | | | |
| Beichiogiadau yn ol pob 1000 o ferched, 1997 [1]: | | | | |
| pob oedran | **71.8** | 74.6 | 58.9 | |
| dan 16 | **10.3** | 8.8 | 7.6 | |
| dan 18 | **52.2** | 45.5 | 41.0 | |
| Cyfradd genedigaethau byw pob 1000 o ferched, 1999 [2]: | | | | |
| pob oedran | **56.6** | 57.6 | 50.8 | 62.9 |
| dan 20 | **37.3** | 30.4 | 30.0 | 28.9 |
| **Disgwyliad einioes, 1998 [3]:** | | | | |
| dynion | **74.5** | 75.1 | 72.6 | 74.3 |
| merched | **79.5** | 80.0 | 78.1 | 79.5 |
| **Marwolaethau** | | | | |
| Cyfraddau marwolaethau, wedi'u safoni yn ol oed, achosion detholedig, 1999 [4]: | | | | |
| pob achos, dynion | **930.0** | 870.7 | 1,068.8 | 958.6 |
| clefydau cylchredol, dynion | **374.1** | 339.8 | 429.5 | 389.0 |
| clefyd coronaidd y galon, dynion | **233.1** | 205.5 | 263.3 | 248.1 |
| stroc, dynion | **70.0** | 66.2 | 92.1 | 80.2 |
| canser, dynion | **235.2** | 231.2 | 275.2 | 229.4 |
| canser yr ysgyfaint, dynion | **60.5** | 60.7 | 83.8 | 60.9 |
| canser colorectol, dynion | **28.5** | 24.7 | 32.7 | 25.9 |
| canser y brostad, dynion | **25.8** | 27.1 | 28.0 | 24.3 |
| afiechyd resbiradol, dynion | **152.9** | 140.3 | 142.3 | 175.2 |
| pob achos, merched | **617.8** | 581.7 | 707.0 | 629.7 |
| clefydau cylchredol, merched | **227.7** | 206.6 | 269.5 | 241.9 |
| clefyd coronaidd y galon, merched | **105.9** | 96.6 | 130.8 | 119.9 |
| stroc, merched | **64.4** | 61.5 | 83.9 | 73.1 |
| canser, merched | **170.1** | 161.4 | 190.0 | 162.5 |
| canser yr ysgyfaint, merched | **28.5** | 28.8 | 43.9 | 28.4 |
| canser colorectol, merched | **16.8** | 16.0 | 19.4 | 16.9 |
| canser y fron, merched | **33.0** | 31.6 | 32.3 | 29.3 |
| afiechyd resbiradol, merched | **98.9** | 94.3 | 102.9 | 123.8 |
| pob achos, pobl, 2000 (dros dro) | **718.7** | 683.7 | 827.5 | 731.4 |
| Cyfradd marwolaethau babanod, 2000 (dros dro) [5] | **5.2** | 5.6 | 5.7 | 5.0 |
| **Adroddiadau unigolion am iechyd cyffredinol, 1998/99 [6]:** | | | | |
| % sy'n adrodd bod eu hiechyd yn 'dda' | **54** | 60 | 61 | 56 |
| % sy'n adrodd 'nad yw eu hiechyd yn dda' | **19** | 13 | 15 | 17 |
| **Anabl am gyfnod hir, gaeaf 1998/99 [7]:** | | | | |
| % o'r boblogaeth oedran gweithio | **23.3** | 17.5 | 18.1 | 19.0 |
| **Salwch cyfnod hir sy'n cyfyngu ar fywyd, 1991** | | | | |
| % o'r trigolion sydd a salwch hir-dymor sy'n cyfyngu ar fywyd | **17.1** | 12.8 | 13.7 | |

| | **Cymru** | Lloegr | Yr Alban | G Iwerddon |
|---|---|---|---|---|
| **Mynychter canser** | | | | |
| Cyfraddau mynychter wedi'u safoni yn ol oed, cyflyrau detholedig, 1997 [8]: | | | | |
| pob malaenedd, dynion | **429.7** | 374.7 | 497.0 | 420.7 |
| yr ysgyfaint, dynion | **75.7** | 71.6 | 107.0 | 74.7 |
| colorectol, dynion | **64.6** | 51.2 | 70.3 | 67.0 |
| y brostad, dynion | **70.7** | 60.7 | 75.3 | 61.2 |
| pob malaenedd, merched | **355.4** | 322.6 | 395.9 | 353.0 |
| yr ysgyfaint, merched | **34.6** | 33.6 | 56.1 | 32.5 |
| colorectol, merched | **39.4** | 34.6 | 45.9 | 45.2 |
| y fron, merched | **111.0** | 105.9 | 106.9 | 103.3 |
| **Mynychter cyflyrau meddygol detholedig** | | | | |
| Cyfraddau mynychter wedi'u safoni yn ol oedran, cyflyrau detholedig, 1994-98 [9]: | | | | |
| clefyd coronaidd y galon, dynion | **41.8** | 35.5 | | |
| clefyd coronaidd y galon, merched | **24.2** | 21.1 | | |
| stroc, dynion | **2.1** | 2.1 | | |
| stroc, merched | **1.6** | 1.5 | | |
| pwysedd gwaed uchel, dynion | **67.3** | 55.6 | | |
| pwysedd gwaed uchel, merched | **77.4** | 65.8 | | |
| clefyd siwgr sy'n cael ei drin ag inswlin, dynion | **6.6** | 5.0 | | |
| clefyd siwgr sy'n cael ei drin ag inswlin, merched | **5.5** | 4.5 | | |
| clefyd siwgr nad yw'n cael ei drin ag inswlin, dynion | **11.1** | 9.8 | | |
| clefyd siwgr nad yw'n cael ei drin ag inswlin, merched | **7.8** | 7.1 | | |
| asthma dynion | **77.2** | 70.4 | | |
| asthma merched | **75.4** | 72.6 | | |
| iselder dynion | **24.0** | 24.9 | | |
| iselder merched | **58.6** | 61.4 | | |
| gofid, dynion | **23.7** | 20.8 | | |
| gofid, merched | **53.3** | 47.9 | | |
| **Iechyd deintyddol** | | | | |
| Pydredd dannedd mewn plant 5 oed, 1999/2000: | | | | |
| % sydd a dannedd pwdr, ar goll, neu wedi'u llenwi | **51.6** | 38.3 | 54.9 | |
| y nifer cyfartalog o ddannedd pwdr, ar goll, neu wedi'u llenwi yn ol pob plentyn | **2.18** | 1.43 | 2.55 | |
| Iechyd deintyddol oedolion, 1998: | | | | |
| % oedolion diddannedd [10] | **17** | 12 | 18 | 12 |
| y nifer cymedrig o ddannedd mewn oedolion deintiog, 1998 | **24.2** | 24.9 | 23.8 | 24.5 |
| **Ysmygu** | | | | |
| Ysmygu sigarets ymhlith oedolion 16 oed ac yn hyn, 1998/99: | | | | |
| % sy'n ysmygu, dynion | **28** | 28 | 33 | 28 |
| % sy'n ysmygu, merched | **26** | 26 | 29 | 29 |
| % ysmygwyr sy'n ysmygu 20+ bob dydd, dynion | **31** | 36 | 46 | 52 |
| % ysmygwyr sy'n ysmygu 20+ bob dydd, merched | **25** | 27 | 34 | 37 |
| Ysmygu sigarets ymhlith pobl ifainc 15 oed, 1997/98: | | | | |
| % sydd erioed wedi ysmygu, bechgyn | **61** | 60 | 59 | 58 |
| % sydd erioed wedi ysmygu, merched | **73** | 70 | 68 | 67 |
| % sy'n ysmygu o leiaf yn wythnosol, bechgyn | **22** | 25 | 22 | 20 |
| % sy'n ysmygu o leiaf yn wythnosol, merched | **29** | 33 | 28 | 28 |
| % sy'n ysmygu'n feunyddiol, boys | **18** | 21 | 19 | 16 |
| % sy'n ysmygu'n feunyddiol, merched | **23** | 24 | 24 | 24 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Yfed alcohol** | | | | |
| Yfed alcohol ymhlith oedolion sy'n 16 oed ac yn hyn, 1998/99 [11]: | | | | |
| % y dynion sy'n yfed mwy na 8 uned ar eu diwrnod llawnaf | **22** | 20 | 24 | 22 |
| % y merched sy'n yfed mwy na 6 uned ar eu diwrnod llawnaf | **9** | 8 | 12 | 10 |
| % a yfodd ddim yn ystod yr wythnos diwethaf, dynion | **32** | 25 | 29 | 47 |
| % a yfodd ddim yn ystod yr wythnos diwethaf, merched | **46** | 41 | 40 | 61 |
| Yfed alcohol ymhlith pobl ifainc 15 oed, 1997/98: | | | | |
| % sy'n yfed cwrw, gwin neu wirod o leiaf yn wythnosol, bechgyn | **53** | 47 | 37 | 33 |
| % sy'n yfed cwrw, gwin neu wirod o leiaf yn wythnosol, merched | **36** | 36 | 33 | 20 |
| **Gweithgarwch corfforol** | | | | |
| Gweithgarwch corfforol ymhlith pobl ifainc 15 oed, 1997: | | | | |
| % sy'n ymarfer o leiaf dwywaith yr wythnos, bechgyn | **82** | 79 | 85 | 90 |
| % sy'n ymarfer o leiaf dwywaith yr wythnos, merched | **56** | 50 | 61 | 63 |

(Gweler y nodiadau a'r diffiniadau i'r tabl)

**Nodiadau a diffiniadau**

1  Beichiogiadau sy'n diweddu mewn un neu fwy o enedigaethau byw neu farw neu erthyliad cyfreithlon. Ni chynhwysir erthyliadau digymell (methgludiadau). Mae'r cyfraddau ar gyfer pob oedran, dan 16, a dan 18 yn ol pob 1,000 o ferched oed 15-44, 13-15 and 15-17 yn ol eu trefn.

2  Cyfraddau ar gyfer pob oedran a dan 20 oed yn ol pob 1,000 o ferched oed 15-44 and 15-19 yn eu trefn.

3  Disgwyliad einioes (mewn blynyddoedd) ar enedigaeth, yn seiliedig ar ddata cyfartalog tair blynedd sy'n canolbwyntio ar y flwyddyn a nodir; dros dro

4  Cyfraddau bob poblogaeth o 100,000, wedi'u safoni yn ol oedran i'r Boblogaeth Safonol Ewropeaidd

5  Marwolaethau sy'n iau na blwydd oed yn ol pob 1,000 o enedigaethau byw

6  Oedolion 16 oed ac yn hyn

7    Pobl anabl am gyfnod hir sy'n oedran gweithio yn ol % y boblogaeth oedran gweithio

8 Cyfraddau yn ol pob 100,000 o'r boblogaeth, wedi'u safoni'n uniongyrchol yn ol oedran i'r Boblogaeth Safonol Ewropeaidd. Mae cyfraddau'r Alban a Gogledd Iwerddon ar gyfer 1996. Mae cyfraddau Cymru o Uned Gwybodaeth a Gwyliadwriaeth ar Ganser Cymru. Nid yw'r cyfraddau ar gyfer pob neoplasm malaen yn cynnwys canser di-felanoma'r croen. Mae cofrestru canserau'n broses ddeinamig, ac mae'r niferoedd yn yn gallu cael eu diwygio'n barhaol.

9  Cyfraddau yn ol pob 1000 o gleifion, wedi'u safoni'n uniongyrchol yn ol oedran i'r Boblogaeth Safonol Ewropeaidd. Mae'r ffigurau'n ymwneud a chyflyrau meddygol y gellir eu trin ac a gofnodwyd mewn sampl o feddygfeydd teuluol.

10  Oedolion heb unrhyw ddannedd naturiol

11 faint a yfwyd yr wythnos diwethaf

**Ffynonellau a darllen pellach**

Ystadegau Iechyd y Deyrnas Unedig (Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol)
http://www.statistics.gov.uk/products/p6637.asp
Ystadegau Iechyd Chwarterol (Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol)
http://www.statistics.gov.uk/products/p6725.asp
Key Health Statistics from General Practice, 1998 (Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol)
http://www.statistics.gov.uk/products/p4863.asp
Adult Dental Health Survey, 1998 (Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol)
http://www.statistics.gov.uk/products/p4749.asp
British Association for the Study of Community Dentistry, 1999/2000
http://www.dundee.ac.uk/dhsru/bascd/bascd.htm
Amrywiadau Daearyddol ym maes Iechyd (Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol)
http://www.statistics.gov.uk/products/p6638.asp
Tueddiadau Rhanbarthol (Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol)
http://www.statistics.gov.uk/onlineproducts/default.asp#compendia